# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR
a gynhaliwyd ar y 5 Chwefror 2019
am 8.00y.h.

**PRESENNOL:- Cynghorwyr:- Rowland Jones, Caredig Jones, Ada Evans, Dewi Rattray, Meirion Davies, Ann Tudor, John Davies, Meic Francis & Dylan Edwards.**

**ABSENOLDEBAU:** Richard Davies,

Rhoddwyd croeso cynnes i gyfarfod Mis 'Bach; gan y Cadeirydd Caredig Jones a dymunwyd Penblwydd Hapus iawn i'r Cyng. John Davies yn 50; llongyfarchiadau!

Dachraeodd y cyfarfod 8 o'r gloch. Darllenwyd cofnodion Mis Ionawr, cynigwyd eu bod yn gywir gan y Cyng. Dewi Rattray ac fe eiliwyd gan y Cyng. Ann Tudor.

18/1066 - MATERION YN CODI
1. Dim ymateb wrth y Cyngor Sir ynglŷn â chynnydd yng nghostau goleuadau'r pentref. Mi fydd y clerc yn cysylltu unwaith eto.
2. Penderfynnwyd anfon lluniau at y Cyngor I ddangos consyrn y cyngor ynglŷn â chyflwr darn o'r llwybr beicio'r Ystwyth.
3. Yn bellach i gais y cyngor cymuned am arwyddion 'rhowch eich baw Ci yn y bin' nodwyd fod angen llawer fwy o finiau baw cwn yn y pentref. Mi fydd y clerc yn cysylltu â'r cyngor sir ynglŷn â hyn.

18/1067 - LLYTHYRON
1. Llythyr wrth WI cymuned Llanilar ynglŷn â sefydlu twba blodau o amgylch y pentref. Roedd y cynghorwyr yn hapus i gefnogi'r prosiect yma. Roedd pawb yn gytûn.
2. Llawer o negeseuon Un Llais Cymru a chyflwynwyd gan y Cyng. Meic Francis.

18/1068 - ARIANNOL
1. Cyflog y Clerc ar gyfer Miss CHwefror; £133.26. Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng. Ann Tudor ac eiliwyd gan y Cyng.Dewi Rattray
2. Anfoneb oddiwrth Cyngor Ceredigion am tal goleiadau'r Pentref, £1030.87. Ofynnwyd i'r Clerc ysfrifennu yn 1af i ofyn am esboniad pam mae gymaind o cynnydd yn y pris ers llynnedd yn enwedig gyda'r bylbiau ynni isel sydd wedi eu osod yn ystod y cyfnod yma. Roedd y Cynhorwyr I gyd yn gytun.

18/1069 – CYNLLUNIO
Nid oes unrhyw cais wedi dderbyn

18/1070 - UNRHYW FATER ARALL
1. Adnewyddu arwyddion ffordd; pam nad yw'r cyngor yn cael eu hysbysu o hyn? Ofynnwyd I'r clerc cysylltu am esboniad.
2. Cwyn wedi derbyn o'r cyhoedd am y ffaith bod ffordd Y Dyffryn wedi cau ar gyfer gwaith BT Openreach heb hysbysu trigolion yr ardal o flaen llaw. Hefyd nid oedd digon o rybudd i'r cerbydau oedd yn teithio ar y ffordd fod y ffordd ar gau.
3. Ofynnwyd a oes unrhyw fodd cael bin grit ar y rhiw wrth ymyl Bellevue Llanilar. Hefyn cais ar wahân ar gyfer bin grit yn stad tai Cwm-Aur. Ofynnwyd i'r clerc cysylltu â'r adran priffyrdd ynglŷn â hyn.
4. **Dyddiad ar gyfer noson casglu sbwriel y Pentref; Nos Fawrth 9fed Ebrill**.

Orffennwyd y cyfarfod am 8.45y.h.